## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (MAN I'R GOGLEDD O GORRIS UCHAF, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, mewn man i'r gogledd o Gorris Uchaf, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar:

i. y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â mynedfa'r eiddo o'r enw Rugog, sydd oddeutu 550 o fetrau i'r gogledd o Gorris Uchaf, Gwynedd, hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r B4405 ym Minffordd;

ii. y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd ar ben Bwlch Tal-y-llyn (neu Gwm Rhwyddfor).

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A487 tua'r de i Fachynlleth, yr A489 tua'r gogledd-ddwyrain i Lantwymyn, yr A470 tua'r gogledd i Cross Foxes a'r A487 tua'r de: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 9 Medi 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (21:00 – 07:00 o'r gloch) rhwng 9 Medi a 5 Hydref 2024, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A487 TRUNK ROAD (NORTH OF CORRIS UCHAF, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 north of Corris Uchaf, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on:

i. the length of the trunk road that extends from its junction with the entrance to the property known as Rugog, approximately 550 metres north of Corris Uchaf, Gwynedd to the centre-point of its junction with the B4405 at Minffordd;

ii. the length of the layby adjacent to the northbound carriageway of the trunk road at the top of Bwlch Talyllyn (or Cwm Rhwyddfor).

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound A487 to Machynlleth, north-eastbound A489 to Glantwymyn, northbound A470 to Cross Foxes and southbound A487: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 9 September 2024. The temporary prohibition is expected to operate overnight (21:00 – 07:00 hours) from 9 September to 5 October 2024, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government